# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Pobl Bach Nurseries Ltd (Llangynnwr)**

**Tŷ Penymorfa**
**Lôn Penymorfa**
**Llangynnwr**
**Caerfyrddin**
**SA31 2NW**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

23/05/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio’r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau’r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â’i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Pobl Bach Nurseries Ltd (Llangynnwr) wedi'i leoli yn Llangynnwr, Caerfyrddin. Catherine Rowlands yw'r unigolyn cyfrifol, a Nia Tobias yw'r person â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd. Mae'r feithrinfa ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 8.00am a 6.00pm ac mae wedi'i chofrestru i ofalu am gyfanswm o 38 o blant ar unrhyw un adeg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig darpariaeth y tu allan i'r ysgol i blant hyd at 12 oed.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant wedi ymgartrefu ac yn amlwg yn mwynhau mynychu Pobl Bach. Maent yn mwynhau chwarae'n rhydd ac yn gyffredinol, mae'r staff yn helpu'r plant i ddatblygu eu chwarae eu hunain. Mae'r staff yn gofalu am y plant mewn modd caredig a magwrus ac yn darparu cyfleoedd diddorol iddynt. Fodd bynnag, nid yw nifer fach o'r staff bob amser yn gyson mewn perthynas â hylendid a rheoli ymddygiad. Cafodd yr ardal awyr agored ei datblygu'n ddiweddar ac mae'n darparu amrywiaeth o gyfleoedd dysgu ar gyfer y plant. Mae'r arweinyddiaeth yn dda.

### 2. Gwelliannau

Yn ystod y broses arolygu, gwnaeth yr arweinwyr ddiweddaru'r polisi cwynion, y cynllun gweithredol a'r datganiad o ddiben.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu, yr amgylchedd ac arwain a rheoli. Mae manylion y rhain yng nghefn yr adroddiad.

## 1. Llesiant

### Crynodeb

Mae'r plant ym meithrinfa Pobl Bach yn hyderus ac yn gallu siarad a mynegi eu hunain. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â'u gofalwyr ac yn hapus ac wedi ymlacio. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn parchu eraill ac yn gofalu am gyfarpar gyda chymorth. Maent yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth.

### Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn gallu dewis pa weithgareddau y maent am gymryd rhan ynddynt a gallant gyfarwyddo eu chwarae eu hunain.

Roedd y plant yn dewis beth roeddent am ei chwarae yn ystod yr amser chwarae'n rhydd. Roedd y plant yn dewis chwarae mewn ardaloedd amrywiol yn yr awyr agored, er enghraifft, yn yr ardal gweithgareddau, yr ardal dŵr a thywod, a'r ardal adeiladu. Roedd y plant yn gallu dewis pa liw paent roeddent am ei ddefnyddio a hefyd p'un a oeddent am olchi eu dwylo neu barhau i baentio. Yn ystod ein hymweliad, rhoddwyd tost gwyn i un plentyn am nad oedd wedi bwyta ei ginio, ond nid oedd dewis amgen ar y fwydlen yn gyffredinol. Yn ystod amser cinio, cafodd y plant hŷn sgwash cyrains duon, ac er i blentyn ddweud bod yn well ganddi sgwash oren, ni roddwyd dewis amgen.

Mae gan y plant ddewis a llais da yn ystod eu gweithgareddau chwarae a dysgu, ond mae angen gwneud rhagor o welliannau ar adeg prydau bwyd.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac yn ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni. Maent yn hollol fodlon wrth chwarae.

Roedd y plant yn fodlon ac wedi ymlacio wrth iddynt archwilio'r ardaloedd amrywiol ac yn dangos eu bod yn mwynhau'r teganau a'r adnoddau ac yn cymryd diddordeb ynddynt. Roedd y plant wedi ymgartrefu'n dda yn yr amgylchedd ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at staff. Roedd y plant ifanc yn sgrechian yn llawn cyffro wrth iddynt siarad yn ddychmygus â'u rhieni ar y ffôn a dweud *'Hiya Mammy, bye Mammy*. Ble ma' Dadi?' Roedd y plant yn gwenu ar y staff ac yn chwifio arnynt yn llawn brwdfrydedd wrth iddynt ddod i mewn i ystafell y babanod.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus iawn.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn hyderus wrth siarad â'i gilydd, eu gofalwyr ac ymwelwyr.

Aeth y plant at y staff yn hyderus ac roedd y plant hŷn yn gallu sgwrsio'n briodol â'u cyfoedion a'r staff. Yn ystod amser stori, roedd dipyn o gweryla rhwng dau blentyn, ond ar ôl cael eu hatgoffa i fod yn garedig wrth eraill, gwnaethant gofleidio ei gilydd a pharhau i wrando ar y stori. Roedd y plant yn hapus i chwarae gyda'i gilydd mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys adeiladu â lego a blociau, a chwarae â theganau byd bach.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn rhyngweithio'n dda.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn brysur, yn chwilfrydig, ac yn ymgysylltu â'u chwarae. Maent yn awyddus i ddangos neu siarad am yr hyn y maent wedi bod yn ei wneud.

Roedd y plant wrth eu boddau'n archwilio'r ardal chwarae rôl, a gwnaethant chwarae am gyfnod estynedig yn y filfeddygfa. Gwnaethant ddefnyddio thermomedr chwarae i gadarnhau tymheredd a sicrhau ei fod yn cael ei lanhau wedi hynny. Yn ogystal, rhoddodd y plant foddion i ddoli fach a oedd yn dioddef o'r ddannoedd. Gwenodd y plant iau a nodio pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi mwynhau'r canu. Yn ystod sesiwn awyr agored, roedd y plant yn mwynhau gweini bwyd a diod ddychmygol i aelod o'r staff, ac roedd nifer o'r plant iau wedi'i swyno gan y poteli synhwyraidd dan do.

Roedd y plant wrth eu boddau yn y feithrinfa.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn cyfleoedd addas i ddysgu a datblygu sgiliau. Mae rhai cyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth ymhellach yn ystod amseroedd prydau bwyd yn cael eu colli.

Roedd y plant yn datblygu eu sgiliau annibyniaeth, ac roedd y plant iau yn gallu gafael yn y brwshys paent a gwnaeth rai ohonynt roi paent arnynt yn annibynnol. Roeddent yn mwynhau defnyddio eu bysedd i baentio. Roedd y rhan fwyaf o'r plant yn gallu adnabod lliwiau a siapiau ar lefel a oedd yn briodol i'w hoedran a'u cam datblygu. Roedd y plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth yn ystod sesiynau crefft. Fodd bynnag, er bod helpwr y dydd ar waith adeg amser cinio ar gyfer y plant hŷn, nid oedd y rôl yn cael ei defnyddio i'r eithaf, ac ar y cyfan roedd cyfleoedd yn cael eu colli yn ystod amseroedd prydau bwyd. Er enghraifft, nid oedd y plant yn arllwys eu diodydd eu hunain. Roedd y plant yn cwblhau posau a jig-sos a oedd yn briodol i'w hoedran yn effeithiol.

Mae'r plant yn datblygu'n dda, ond mae rhai cyfleoedd yn cael eu colli mewn perthynas ag annibyniaeth adeg amseroedd prydau bwyd.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu gofal ymatebol sy'n diwallu eu hanghenion unigol. Fodd bynnag, nid yw nifer fach o'r staff bob amser yn dilyn gweithdrefnau hylendid y gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach, ac mae'r mwyafrif o'r staff yn dilyn polisïau a gweithdrefnau sydd ar waith ar gyfer y gwasanaeth.

Gwnaethom drafod senarios amddiffyn plant â'r staff a gwnaethant ymateb yn briodol. Mae'r gwasanaeth yn rhan o gynllun ysgolion iach cenedlaethol. Roedd y staff yn cynnig prydau bwyd iachus, wedi'u coginio'n ffres, megis pasta cyw iâr, ac yn darparu ar gyfer amrywiaeth o anghenion deietegol. Mae'r cogydd yn cadw cofnod manwl o'r bwyd a ddarperir, yn ogystal â'r tymereddau. Fodd bynnag, er y cynigiwyd llaeth a dŵr i'r plant yn ystod y dydd, cawsant sgwash amser cinio hefyd. Roedd y rhan fwyaf o'r staff yn sicrhau eu bod yn dilyn polisïau hylendid y gwasanaeth, a gwnaethant ddefnyddio menig a ffedogau wrth newid cewynnau. Roedd y staff yn sicrhau bod y plant yn golchi eu dwylo cyn amser prydau bwyd neu fyrbryd. Fodd bynnag, ni wnaeth y plant a gyrhaeddodd ar ôl ysgol olchi eu dwylo cyn bwyta. Ambell waith, nid oedd nifer fach o'r staff yn cadw at y polisïau. Er enghraifft, nid oedd bwrdd wedi cael ei sychu cyn cinio ac roedd nifer fach o'r staff yn defnyddio tywel a rennir i sychu dwylo nifer fach o'r plant. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r plant ac roeddent yn cynnwys yr holl wybodaeth gywir. Gwnaeth y staff sicrhau bod y rhieni'n llofnodi cofnodion damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth, a oedd yn cael eu storio'n effeithiol yn electronig. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant ar hylendid deintyddol ac yn dilyn y rhaglen Cynllun Gwên.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

At ei gilydd, mae'r staff yn gyson o ran rheoli rhyngweithio'r plant ac yn dilyn y polisi ymddygiad cadarnhaol.

Roedd polisi ymddygiad clir ar waith ar gyfer y gwasanaeth, a gwelsom fod y staff yn dilyn y polisi hwnnw ar y cyfan. Er enghraifft, roedd y staff yn canmol y plant am eu bod yn ymddwyn yn gadarnhaol; roeddent yn rhoi anogaeth ysgafn i'r plant ymddwyn yn briodol a rhannu; ac roeddent yn ymdrin â mân anghydfodau mewn ffordd ddigynnwrf. Roedd y staff yn siarad â'r plant mewn ffordd ddigynnwrf a chalonogol, a rhoddwyd canmoliaeth gynnes i'r plant am ymddwyn yn gadarnhaol; “da iawn”; a “well done you”. Yn ogystal, gofynnodd aelod o'r staff i'r plant am beli o wahanol liw, a'u canmol wrth iddynt adnabod y peli lliw

cywir. Roedd y staff yn cofleidio'r babanod iau, yn gwenu arnynt ac yn ymateb i'w synau a'u rwdlan mewn ffordd hyfryd. Roedd y staff yn ymgysylltu'n dda â'r plant ac yn cyfleu negeseuon diogelwch effeithiol i'w cadw'n ddiogel, ac yn gwneud eu gorau glas i geisio atal damweiniau rhag digwydd. Er enghraifft, gwnaeth un aelod o'r staff atgoffa un plentyn yn dawel i eistedd yn daclus ar y gadair, gan ddweud “sit down, on your bottom” sawl gwaith pan oedd plentyn yn dringo ar y gadair. Fodd bynnag, mewn sawl achos, nid oedd nifer fach o'r staff yn cyfleu negeseuon mor effeithiol â phosibl. Er enghraifft, dywedodd y staff wrth blentyn i beidio â dal y fforc ger ei glust ond ni wnaethant esbonio'r peryglon. O bryd i'w gilydd, roedd nifer fach o'r staff yn betrusgar wrth ymateb i rai o'r plant nad oeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau. Ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r staff yn rhyngweithio'n effeithiol â'r plant er mwyn ymestyn eu dysgu.

Gan amlaf, mae'r staff yn rhyngweithio'n effeithiol ond mae yna rai anghysondebau o bryd i'w gilydd.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn adnabod y plant yn eu gofal yn dda iawn. Maent y cynllunio cyfleoedd chwarae a dysgu sy'n briodol i ddatblygiad y plant.

Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau priodol ar gyfer y plant ac yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant. Roedd y staff wedi paratoi sachau stori ac yn eu defnyddio'n effeithiol i ddatblygu llythrennedd y plant . Roedd y plant yn gallu cyfrannu eu syniadau at y gwaith cynllunio ar lafar ond nid oedd unrhyw dystiolaeth ysgrifenedig ar gael. Roedd y staff yn olrhain datblygiad y plant ond roedd hwn yn faes a fyddai'n cael budd o gael ei ddatblygu ymhellach. Ar y cyfan, roedd y staff yn diwallu anghenion y plant yn briodol, ond roedd yna rai anghysondebau.  Er enghraifft, nododd aelod o'r staff nad oedd un o'r plant yn hoff o bastai caws a thatws a oedd ar y fwydlen, ond cafodd ei weini i bob plentyn. Serch hynny, roedd y staff wedi darparu tost fel dewis amgen yn y pendraw. Roedd y staff yn rhoi cyfleoedd priodol i'r plant ddod yn annibynnol, ond roedd angen datblygu hyn ymhellach yn ystod amseroedd prydau bwyd. Er enghraifft, roedd aelod o'r staff yn gosod y bwyd o flaen y plant ac yn arllwys y sgwash iddynt amser cinio. Roedd rhai o aelodau'r staff yn annog y plant iau i feddwl drostynt eu hunain, ac i ddatblygu eu gallu i adnabod lliwiau a rhifau. Roeddent yn cyflwyno geirfa ddwyieithog yn aml. Roedd y staff yn trefnu gweithgareddau ar sail thematig. Roedd y staff yn rhoi cymorth i'r plant ag anghenion ychwanegol ac yn gweithio'n agos ag asiantaeth allanol sy'n darparu cymorth un i un.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cydweithio'n dda i hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant, ac yn diwallu eu hanghenion.

## 3. Yr Amgylchedd

**Crynodeb**

Gofelir am y plant mewn amgylchedd diogel a glân. Mae'r safle'n darparu amgylchedd priodol ar gyfer chwarae a dysgu, ac mae'r arweinwyr wedi datblygu'r meysydd dysgu yn unol â'r cyfnod sylfaen. Mae'r adnoddau a'r cyfarpar sydd ar gael o ansawdd da, mewn cyflwr da ac yn addas ar gyfer anghenion y plant. Maent yn addas ar gyfer ystod oedran y plant ac yn hyrwyddo eu camau datblygu.

**Ein canfyddiadau**

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod arferion cyson a thrylwyr ar waith i gefnogi amgylchedd diogel. Maent yn nodi risgiau i ddiogelwch y plant, ac yn eu dileu cyhyd ag y bo'n bosibl.

Roedd yr arweinwyr wedi sicrhau bod asesiadau risg ar waith ac roeddent yn monitro diogelwch y safle'n rheolaidd. Er enghraifft, roedd aelod o'r staff yn gwirio'r ardal awyr agored cyn i'r plant fynd allan. Roedd gatiau wedi'u gosod ac roedd y mynedfeydd yn ddiogel iawn. Yn ogystal, roedd polisi ar waith ar gyfer ateb y drws. Roedd y larymau tân yn cael eu cadarnhau'n rheolaidd ac roedd cynllun gwagio'r adeilad adeg tân yn cael ei arddangos. Roedd y gwiriadau cynnal a chadw'n gyfredol. Roedd y cogydd yn cadw cofnodion manwl o ran diogelwch a hylendid bwyd.

Mae’r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel mewn ffordd effeithiol.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r amgylchedd dan do ac awyr agored yn ddiogel, yn groesawgar ac yn gyfeillgar. Roedd digon o le i'r plant symud o gwmpas yn rhydd, a hynny dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr arweinwyr wedi asesu defnydd pob ardal ac roedd grwpiau llai o blant yn defnyddio gwahanol ystafelloedd yn ystod amseroedd prydau bwyd. Roedd yr ardal awyr agored wedi cael ei datblygu ac roedd y plant wrth eu bodd yn chwarae â chyfarpar chwarae mawr yn ogystal ag ardal laswellt a oedd yn darparu cyfleoedd archwilio a chwarae. Roedd adnoddau o ansawdd da ar gael, ac roedd yr ardal yn cynnwys llawr meddal ac amrywiaeth dda o deganau awyr agored, gan gynnwys llithren, hambwrdd dŵr, beiciau a boncyffion pren. Roedd y gwasanaeth wedi cydweithio ag ymgynghorydd allanol i ailgynllunio'r meysydd dysgu dan do ac yn darparu cyfleoedd dysgu yn unol â'r cyfnod sylfaen, a oedd yn cynnwys cornel ddarllen ag ardal eistedd gyfforddus, cornel fathemateg, corneli chwarae rôl, cornel ysgrifennu ac ardal grefft. Fodd bynnag, nid oedd y bachau cotiau ar gyfer y plant bach yn rhoi'r cyfle iddynt ddatblygu eu hannibyniaeth gan eu bod yn rhy uchel. Roedd ystafell y babanod yn gyfforddus, yn lliwgar ac eang gyda digon o gyfleoedd i'r plant gropian, cerdded, chwarae a gorffwys. Roedd eiddo'r plant, gan gynnwys

cewynnau, clytiau ac eli̇̈au, yn cael eu storio'n ddiogel mewn basgedi unigol ag enwau'r plant wedi'u labelu'n glir arnynt.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i'r plant i gyd.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod amrywiaeth eang o offer ac adnoddau sy'n briodol i oedran y plant ar gael iddynt.

Roedd byrddau a chadeiriau o faint addas ar gael i'r plant, yn ogystal ag amrywiaeth dda o deganau, gemau ac adnoddau. Roedd adnoddau'n cael eu storio o fewn cyrraedd y plant ac roedd y rhan fwyaf o'r blychau wedi'u labelu. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi adolygu'r amrywiaeth o gyfarpar sydd ar gael ac wedi prynu teganau newydd ar gyfer yr ardaloedd chwarae dan do ac awyr agored. Roedd amrywiaeth dda o lyfrau ac adnoddau er mwyn hyrwyddo chwarae dychmygus.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau a chyfarpar o ansawdd uchel ar gael.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae arweinwyr Pobl Bach yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn dda, a bod ganddo ethos sy'n sicrhau bod anghenion y plant yn cael blaenoriaeth. Mae polisïau a gweithdrefnau clir ar waith, y mae pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â nhw. Mae systemau ar waith ar gyfer adolygu'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben ac yn gweithio'n dda i gefnogi’r staff a chadw polisïau'n gyfredol. Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw'n drefnus iawn.

Mae'r arweinwyr yn gweithredu'n effeithiol ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn drefnus. Roedd datganiad o ddiben ar waith; roedd yn rhoi darlun cywir o'r gwasanaeth a chawsom fersiwn ddiwygiedig ohono yn ystod yr arolygiad. Roedd y gymhareb oedolion i blant yn unol â'r safonau gofynnol cenedlaethol ac weithiau'n rhagori ar y gymhareb ofynnol. Roedd yr arweinwyr yn gweithredu'n rhagweithiol ac wedi rhoi gwybod i AGC am bob digwyddiad hysbysadwy mewn modd amserol. Roedd y polisi cwynion yn cynnwys yr holl fanylion perthnasol heblaw am enw'r unigolyn cyfrifol. Mae’r gwasanaeth yn aelod o’r gymdeithas gofal plant. Mae'r arweinwyr yn cysylltu ag AGC yn effeithiol ac yn rhoi gwybod i'r arolygiaeth am y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hysbysadwy.

Mae'r arweinyddiaeth yn effeithiol yn y gwasanaeth hwn.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae gan yr arweinwyr system hunanwerthuso ar waith ac yn casglu adborth gan y rhieni ac asiantaethau eraill. Roeddent wrthi'n casglu'r holl dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad o ansawdd y gofal.

Roedd yr arweinwyr wedi ceisio barn y rhieni drwy ddosbarthu holiadur iddynt. Wrth drafod, dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn awyddus i wrando ar farn y rhieni a'r plant, ac i ystyried eu hadborth wrth gynllunio ar gyfer gwelliannau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, roedd y gwasanaeth wedi cael lefel 5 gan yr asiantaeth safonau bwyd, wedi cyflwyno cyfarpar chwarae meddal newydd i'r uned plant bach, wedi gweithio gydag ymgynghoriaeth i ddatblygu'r gwasanaeth gofal plant, ac wedi datblygu'r meysydd dysgu yn yr unedau plant bach a chyn-ysgol. Yn ogystal, roeddent wedi datblygu'r ardal awyr agored. Roedd yr adroddiad ac adolygiad o ansawdd y gofal diwethaf wedi'u chwblhau ym mis Ionawr 2019 ac anfonwyd copi i AGC. Fodd bynnag, er bod yr arweinwyr yn casglu barn y rhieni, y staff a'r plant, nid oedd yr adroddiad yn adlewyrchu'n llwyr y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arweinwyr wedi ymrwymo i ddefnyddio system rheoli cofnodion electronig.

Mae trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant wrthi'n datblygu ac mae'r arweinwyr yn gwerthfawrogi adborth.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod digon o staff yn y gwasanaeth, a bod y staff yn cael hyfforddiant priodol.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau arfarniadau blynyddol gyda'r staff, ac ar y cyfan, roedd system dda ar waith i sicrhau arfarniadau rheolaidd. Nid oedd y rheolwr yn gweithio â statws ychwanegol ac roedd dirprwy yn ei le hefyd. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod proses effeithiol ar waith ar gyfer hyfforddi'r staff. O ganlyniad, roedd y staff wedi cael amrywiaeth o hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant gorfodol, ac roedd swyddog diogelwch tân wedi ymweld â'r safle y tu allan i oriau gwaith er mwyn hyfforddi'r staff. At ei gilydd, roedd ffeiliau'r staff yn drefnus ond nid oeddent yn cynnwys datganiad iechyd meddygol tri aelod o'r staff. Unionwyd hyn yn ystod yr arolygiad. Roedd gan yr arweinwyr nifer o bolisïau mewn perthynas ag ymddygiad y staff, ac mae'r staff yn cwblhau proses sefydlu briodol. Roedd y staff wedi llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau er mwyn cadarnhau eu bod wedi'u darllen a'u deall.

Mae gwaith o reoli'r ymarferwyr, y staff ac adnoddau eraill yn gadarnhaol ac yn cael ei drefnu'n effeithiol.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n dda gyda nifer o sefydliadau a chwmnïau yn y gymuned. Maent hefyd yn gwahodd pobl i'r gwasanaeth.

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni, yr ysgolion lleol a sefydliadau yn y gymuned. Roeddent wedi casglu gwybodaeth fanwl wrth y rhieni am anghenion, dewisiadau a threfn ddyddiol y plant cyn iddynt ddod i'r feithrinfa, ac roeddent ar gael ar y safle bob dydd i siarad â'r rhieni. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau gofal unigol yn gwbl gynhwysfawr. Roedd yr arweinwyr yn rhannu gwybodaeth am y gwasanaeth â'r rhieni, ynghyd â'r gweithgareddau a digwyddiadau, mewn gwahanol ffyrdd; safle cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyron a thrwy arddangos gwybodaeth ym mynedfa'r feithrinfa.

Mae'r partneriaethau'n dda.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

## 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Rydym yn argymell bod yr arweinwyr yn sicrhau eu bod yn gwneud y canlynol:

- Myfyrio'n well ar farn y plant a'r staff yn yr adroddiad o Ansawdd y Gofal;
- cynnwys rhagor o fanylion mewn cynlluniau gofal unigol;
- gosod labeli ar bob blwch storio sy'n hygyrch i'r plant;
- symud y bachau cotiau yn ystafell y plant bach er mwyn i'r plant eu cyrraedd;
- annog y staff i ganiatáu i'r plant gofnodi eu cyfraniadau i'r gwaith cynllunio;
- annog y staff i ddatblygu ymhellach y ffordd y maent yn olrhain datblygiad y plant;
- dilyn Canllawiau Arfer Gorau Bwyd a Maeth Llywodraeth Cymru mewn perthynas â diodydd a ddarperir;
- datblygu annibyniaeth y plant ymhellach yn ystod amseroedd prydau bwyd;
- sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn pob polisi a gweithdrefn bob tro; a
- sicrhau nad yw'r staff fyth yn defnyddio tywel a rennir i sychu dwylo’r plant.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Gwnaethom hefyd ystyried pryder dienw a godwyd mewn perthynas â gofal a datblygiad, a deuthum i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r pryder hwn.

- Ymwelodd dau arolygydd â'r gwasanaeth yn ddirybudd ar 17 Ionawr 2019 am gyfanswm o chwe awr;

- gwnaethom siarad â'r plant, y staff, y person â chyfrifoldeb a'r unigolyn cyfrifol;

- gwnaethom ddefnyddio'r adnodd Fframwaith Arsylwi Byr ar gyfer Arolygu (SOFI) 2, er mwyn nodi tystiolaeth o'r ffordd roedd y plant yn ymgysylltu a'r gofal a ddarperir gan y staff;

- gwnaethom roi holiaduron i'r staff a'r rhieni; a

- gwnaethom edrych ar sampl o ddogfennaeth a pholisïau, gan gynnwys ffeiliau'r staff, cofrestrau, cofnodion datblygu'r plant, datganiad o ddiben ac adroddiad adolygu ansawdd gofal y gwasanaeth.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Catherine Rowlands** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Nia Tobias** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **38** |
| **Ystod oedran y plant** | **Hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **8.00am - 6.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Rhagfyr 2017** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **17 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'r diwylliant Cymreig.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

Nid oedd unrhyw gofnodion diffyg cydymffurfio â statws agored.